

# Yn ddedwydd ac anesmwyth

*“oherwydd i ni glywed am eich ffydd... ac am y cariad sydd gennych... deubeth sy'n tarddu o wrthrych eich gobaith, sydd ynghadw yn y nefoedd i chwi. (adn. 4)*

## Beth am ddarllen Colosiaid 1:1–14 ac yna myfyrio

A yw cadw golwg ar y nefoedd sydd o'n blaen yn peri ein bod yn amharod i wasanaethu ein brodyr a'n chwiorydd yma ar y ddaear? Os yw hynny'n wir, mae rhywbeth o'i le. Meddyliwch am y canlyniadau cymdeithasol aruthrol a ddeilliodd o waith y dynion y cyfeiriwyd atynt ddoe, Wesley, Shaftesbury a Booth. Gyda sêl a gallu arbennig, bu iddynt weithio allan bwrpas Duw ar y ddaear, ac eto roeddent yn gwbl sicr o'r nefoedd ac yn siarad amdani yn aml:

Trwy dardh, trwy niwl, mi wela'r fan  
ddymuna i'm henaid gael i'w ran,  
ardaloedd gras, ardaloedd hedd  
y wlad mae cariad pur di-drai  
fel afon yn ei dyfrhau  
tu hwnt i angau dau a'r bedd.

Rwyf am ddal y byddwch yn gweithio yn well dros Dduw yma ar y ddaear os, trwy ffydd, bydd gennych olwg berffaith ar ddiwedd Duw ar eich cyfer. Felly, peidiwch â meddwl, wrth i mi eich tywys trwy'r astudiaethau yma ar y nefoedd dros yr wythnosau nesaf, y dylai eich gweithgarwch dros Dduw yma ar y ddaear gael ei leihau. Mae rhai yn y gorffennol wedi eu meddiannu gymaint gyda golwg ar y nefoedd fel na fu iddynt wneud fawr ddim i gynorthwyo neb ar y ddaear. Ond does dim angen i hyn ddiwydd i chwi. A dweud y gwir, pan fyddwch yn dal y weledigaeth o'r nefoedd o'ch blaen yn wastad, fe ddylai hyn eich annog i weithio dros Dduw yma ar y ddaear, gan y bydd y weledigaeth yn atgof cyson fod popeth sydd o'ch cwmpas fel pabell, ac ar unrhyw adeg gall y gair ddod i godi'r pegiau.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

2 Cor. 5:1–10; Luc 10:20; Heb. 11:10

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Am beth oedd Paul yn hiraethu?
2. Beth ddylai fod testun ein gorfoledd ni?

## Gweddï

O Dad cariadlon, mae angen y gair yma arna i, oherwydd mae rhywbeth yn of fi sydd am ddal gafael mewn pethau tymhorol yn hytrach na phethau tragwyddol. Newid fy mlaenoriaethau, Arglwydd. Gad i'r disgwyliad am y nefoedd ddylanwadu ar fy holl waith yma ar y ddaear. Dwi'n gweddïo yn enw Iesu Grist. Amen.